## DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER
## NODYN CYFARFOD CLEIENT /DADANSODDIAD CYFREITHIOL SQE2

| *Sgiliau* | *Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd* | *Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd* |
|---|---|---|
| **Cofnodi'r holl wybodaeth berthnasol** | • Gan ddefnyddio'r ffeithiau perthnasol a geir yn nogfennau'r asesiad ac yn sgil Cyfweliad y Cleient, mae'r ymgeisydd yn dewis ac yn amlinellu'r ffeithiau perthnasol e.e. sicrhau bod y cleient wedi'i fodloni o ran ei anghenion/ amcanion, neu fod y ffeithiau hynny'n berthnasol i'r dadansoddiad cyfreithiol | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi ffeithiau perthnasol o ddogfennau'r asesiad, nac yn sgil Cyfweliad y Cleient, sy'n bodloni amcanion y cleient neu sy'n berthnasol i'w ddadansoddiad cyfreithiol<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn cynnwys llawer o ffeithiau yn ei ateb nad ydynt yn berthnasol i'w gyngor cyfreithiol |
| | | |
| **Nodi'r camau nesaf priodol** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi'r camau i'w cymryd er mwyn symud mater y cleient yn ei flaen, e.e. bydd y cyfreithiwr yn darparu llythyr o gyngor i'r cleient, neu'n gofyn am ragor o wybodaeth gan y cleient | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi unrhyw gamau nesaf perthnasol er mwyn symud mater y cleient yn ei flaen<br><br>• Mae'r ymgeisydd yn nodi camau nesaf ond nid yw'r rhain yn symud mater y cleient yn ei flaen, e.e. mae'n argymell ymholiad ym meysydd nad ydynt yn effeithio ar broblem y cleient |
| | | |
| **Rhoi cyngor sy'n dangos ffocws ar y cleient (h.y. cyngor sy'n dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau** | • Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o bryderon y cleient o safbwynt y cleient (e.e. mae'r ymgeisydd yn mynd i'r afael â phroblemau cyfreithiol y cleient, unrhyw ystyriaethau masnachol perthnasol a/neu amgylchiadau personol y cleient). | • Nid yw'r ymgeisydd yn gwerthfawrogi nac yn ymdrin â phroblem y cleient o safbwynt y cleient e.e. mae'n cynhyrchu dadansoddiad cyfreithiol nad yw'n ystyried pryderon y cleient |

| | | |
|---|---|---|
| **ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol)** | | |
| | | |
| ***Y Gyfraith*** | ***Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd*** | ***Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd*** |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | • Mae'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol sylfaenol perthnasol yn unol â manyleb asesiad SQE2 ac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. | • Nid yw'r ymgeisydd yn nodi'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol nac yn eu defnyddio'n gywir yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol perthnasol mewn ffordd sy'n mynd i'r afael ag anghenion a phryderon y cleient |
| | | |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | • Nid yw nodyn cyfarfod na dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient na'r ffeithiau a'r materion cyfreithiol perthnasol<br>• Lle bo'n berthnasol, mae'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol ac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) | • Nid yw nodyn cyfarfod na dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun sefyllfa'r cleient na'r ffeithiau a'r materion cyfreithiol perthnasol<br>• Nid yw'r ymgeisydd yn cydnabod materion moesegol nac yn arfer crebwyll effeithiol wrth fynd i'r afael â'r rhain yn unol ag Egwyddorion a rheolau ymddygiad proffesiynol yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) |